# CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

# PROTOCOL AR YMDDYGIAD YN Y SIAMBR

## PROTOCOL Y LLYWYDD AR YMDDYGIAD YN Y SIAMBR / RHEOLAU DADLAU

## EGWYDDORION

### Egwyddor Allweddol

1. Rhaid i'r Aelodau hyrwyddo parch tuag at y Cynulliad yn eu hymddygiad a dangos parch a chwrteisi tuag at Aelodau eraill ar bob adeg. Rhaid i'r Aelodau gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan y Llywydd ynghylch ymddygiad yn y Siambr.

### Cyffredinol

- anogir yr Aelodau i roi blaenoriaeth i fynychu'r cyfarfodydd llawn;
- dim ond pan y'u gelwir gan y Llywydd y caiff yr Aelodau siarad yn ystod y trafodion;
- pan fo'r Llywydd yn siarad, ni chaiff yr Aelodau siarad ac, os ydynt yn sefyll, rhaid iddynt ddychwelyd i'w seddau;
- dim ond un Aelod gaiff siarad ar y tro;
- dim ond unwaith mewn dadl ar gynnig neu welliant penodol y caiff yr Aelodau siarad oni bai eu bod yn arfer eu hawl i ateb;
- rhaid i Aelodau a elwir i siarad gan y Llywydd naill ai sefyll neu eistedd yn eu lle ac annerch y Cadeirydd (bydd yr Aelodau yn ymwybodol ei bod yn haws i'r Aelodau eraill a'r bobl yn yr oriel gyhoeddus weld siaradwr os yw'n sefyll) (Rheol Sefydlog 7.1);
- disgwylir i Aelodau sy'n dymuno siarad mewn dadl fod yn bresennol yn y Siambr drwy gydol y ddadl honno;
- dylid cadw areithiau yn gryno ac yn berthnasol i'r pwnc o dan sylw;
- ni chaniateir i'r Aelodau ddod â bwyd na diod i'r siambr, na chyfarpar electronig a allai darfu ar waith y Siambr;
- ac eithrio'r Tywyswyr, swyddogion wrth fwrdd y swyddogion a'r Clercod, ni chaniateir i swyddogion y Cynulliad na staff yr Aelodau gael mynediad i'r Siambr.

## AELODAU SY'N SIARAD MEWN DADLEUON

2. Fel egwyddor gyffredinol, gobeithir sicrhau bod yr holl gyfraniadau i ddadleuon y cyfarfod llawn yn gryno ac yn berthnasol. Gelwir ar yr Aelodau i siarad yn ôl ewyllys y Llywydd. Ar ddechrau dadl gall y Llywydd gyhoeddi terfyn amser ar areithiau (Rheol Sefydlog 7.3). Oni bai i'r Llywydd ddyfarnu fel arall, y terfyn amser safonol fydd pum munud. Gall y Llywydd orchymyn i Aelod sydd wedi siarad yn rhy hir roi'r gorau iddi. Mae'n gwrtais i aelodau sy'n

dymuno siarad mewn dadl roi rhybudd ymlaen llaw i'r Llywydd, er mwyn ei alluogi i bennu terfyn amser priodol. Bydd Aelodau nad ydynt wedi rhoi rhybudd ymlaen llaw, neu nad ydynt yn bresennol drwy gydol y ddadl yn ei chael yn anos i ddal llygad y llefarydd. Gall aelodau geisio dal llygad y llefarydd un ai drwy sefyll yn eu lle, neu drwy godi eu llaw. Er mai'r Llywydd sydd â'r gair olaf ar y mater hwn, fe fydd fel arfer, wrth alw'r Aelodau i siarad yn gwahodd cynrychiolwyr o bob grp gwleidyddol i siarad yn eu tro gan ystyried cydbwysedd cynrychiolaeth y pleidiau yn y Cynulliad. Fel arfer rhoddir cyfle i arweinwyr grwpiau gwleidyddol siarad os byddant yn nodi eu dymuniad i wneud hynny.

3. Caiff Aelod sy'n siarad ganiatáu i Aelodau eraill ymyrryd er mwyn egluro. Dylai ymyrraeth o'r fath fod yn gryno. Ni chaiff Aelod sy'n ymyrryd roi cyfle i ail Aelod sy'n dymuno ymyrryd. Nid oes hawl i ymyrryd, ac os yw'r Aelod sy'n siarad yn gwrthod caniatáu hynny, nid yw'n fater i'r Llywydd (Rheol Sefydlog 7.5).

4. Ni chaiff Aelod siarad fwy nag unwaith yn ystod dadl ar gynnig neu welliant neilltuol oni fydd wedi gwneud y cynnig neu wedi cynnig gwelliant. Mewn achos o'r fath bydd gan yr Aelod, fel arfer, hawl i ateb cyn y cynhelir pleidlais ar y cynnig neu'r gwelliant, neu gyda chaniatâd y Llywydd, gyfle i esbonio yn fyr ryw bwynt perthnasol o'r araith wreiddiol (Rheol Sefydlog 7.4).

5. Ni fwriedir i ddadleuon fod yn gyfres o areithiau gosod a gofynnir i Aelodau sy'n bwriadu siarad fod yn bresennol drwy gydol y ddadl. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i Aelodau gymryd i ystyriaeth gyfraniadau Aelodau eraill yn eu hareithiau a bydd yn osgoi unrhyw ailadrodd. Ni ddymunir ychwaith i Aelodau ddarllen yn uchel areithiau a baratowyd ymlaen llaw heb ystyried cyfraniadau blaenorol. Er mwyn cwrteisi dylai Aelodau aros i glywed unrhyw sylwadau a wneir mewn ymateb i'w haraith. Os yw Aelod yn methu bod yn bresennol ar gyfer yr holl ddadl, dylai nodi hynny wrth roi rhybudd ymlaen llaw i'r Llywydd ei fod am siarad a dylai gyflwyno ei ymddiheuriadau i'r Siambr.

**Cynnwys areithiau**

6. Mae'n ofynnol i'r areithiau fod yn berthnasol i'r busnes sydd gerbron y Cynulliad a dylid osgoi ailadrodd diflas (Rheol Sefydlog 7.3). Ni ddylai Aelodau ddyfynnu'n helaeth o ddogfennau neu areithiau eraill.

7. Mae Rheol Sefydlog 7.2 yn gwahardd defnyddio iaith sydd, ym marn y llywydd, yn groes i'r drefn, yn camwahaniaethu neu'n peri tramgwydd, neu'n gallu amharu ar urddas y Cynulliad. Y Llywydd fydd yn penderfynu beth sydd yn cael ei ystyried yn iaith sy'n groes i'r drefn, sy'n camwahaniaethu neu'n peri tramgwydd. Er hynny, ystyrir cyfeiriadau hiliol neu rywiaethol yn gamwahaniaethol ac yn dramgwyddus bob amser.

8. Mae unrhyw gyhuddiadau a wneir yn erbyn unrhyw Aelod neu unrhyw berson arall yn ystod trafodion y Siambr yn cael eu gwarchod â braint lwyr o dan Gymal 77(1) Deddf Llywodraeth

Cymru. Mae’r ffaith fod gan aelodau fraint lwyr yn golygu y dylent fod yn ofalus iawn ynghylch gwneud honiadau allai fod yn niweidiol i’r unigolyn dan sylw. Gan amlaf, felly, ystyrir cyhuddiadau personol ynghylch Aelod neu unrhyw berson arall, gan gynnwys cyhuddiadau sydd yn gelwydd llwyr, cyhuddiadau o weithgareddau llwgr neu annheg neu anghyfreithlon, a chyhuddiadau o gamgynrychioli bwriadol, yn dramgwyddus. Os yw aelod yn ystyried fod amgylchiadau arbennig yn bodoli a fyddai’n cyfiawnhau gweithredu’n groes i hyn, dylid ymgynghori â’r Llywydd o flaen llaw.

9. Mae Rheol Sefydlog 7.2 yn caniatáu i’r Llywydd orchymyn i Aelod sy’n defnyddio iaith a ystyrir yn groes i’r drefn, yn camwahaniaethu neu’n peri tramgwydd i’w thynnu’n ôl.

10. Wrth gyfeirio at Aelodau eraill yn eu hareithiau, dylai’r Aelodau eu cyfarch yn ôl yr hyn sydd orau gan yr Aelod e.e. Ms Davies, Ms Megan Davies, Mr Jones, David Jones, David.

**Sub Judice**

11. Mae’n ofynnol i Aelodau sydd am godi mater lle bo achos llys wedi’i gychwyn wneud hynny drwy gyfrwng cynnig neu gwestiwn (Rheol Sefydlog 7.13). Cyn cyflwyno’r cyfryw gynnig neu gwestiwn rhaid i’r Aelod roi rhybudd ymlaen llaw a rhaid sicrhau’r Llywydd:

- bod gan y mater berthynas glir â pholisi cyhoeddus
- nad yw’r mater yn ymwneud ag achos sydd i’w wrando, neu sy’n cael ei wrando gerbron rheithgor
- na fydd yr Aelod, yn ei sylwadau, yn gorgyffwrdd â swyddogaethau’r llysoedd neu dribiwnlys barnwrol
- pan roddir caniatâd i godi’r mater, bod cyfrifoldeb ar yr aelod i osgoi gwneud unrhyw sylw a all niweidio canlyniad achos llys.

12. Bydd y Llywydd yn cyhoeddi canllawiau ar y mater hwn.

**AELODAU NAD YDYNT YN SIARAD YN Y DDADL**

13. Bydd disgwyl i Aelodau nad ydynt yn siarad wrando’n gwrtais ar y ddadl ac ni ddylent dorri ar draws yr Aelod sy’n siarad na chynnal sgwrs breifat. Ni chaiff Aelodau ddod ag offer electronig sy’n tarfu, bwyd, diod nac unrhyw beth a allai dynnu sylw Aelodau eraill i mewn i'r Siambr.

14. Dylai unrhyw negeseuon oddi wrth swyddogion neu staff gael eu gyrru’n electronig at ddesg yr aelod, neu eu rhoi i’r Tywyswyr i’w trosglwyddo i’r Aelod perthnasol.

**TREFN DADL**

15. Dyma’r drefn arferol ar gyfer dadl:

- ar ddechrau’r ddadl bydd y Llywydd yn galw’r cynigydd i wneud ei gynnig. Gellir gwneud hyn yn ffurfiol ( "Rwy’n cynnig>>>") neu gall yr Aelod siarad o’i blaid cyn pen y terfyn amser a osodwyd ar gyfer areithiau’r ddadl;
- bydd y Llywydd yn galw ar aelodau eraill i gynnig unrhyw welliannau sydd wedi eu cyflwyno a’u dethol, yn ôl eu trefn yn y cynnig. Os byddant yn codi yn yr un lle byddant yn cael eu galw un ai yn ôl y drefn gyflwyno neu yn ôl trefn a benderfynir gan y Llywydd er mwyn hwyluso dadl resymegol;
- bydd y Llywydd yn cynnal pleidlais ar bob gwelliant. Pan gyflwynwyd gwelliannau i welliannau, cynhelir pleidlais arnynt cyn cynnal pleidlais ar y gwelliant y maent yn cyfeirio ato. Unwaith y bydd pleidlais wedi’i chynnal ar welliannau, cynhelir pleidlais ar y prif gynnig, wedi’i ddiwygio fel y bo’n briodol os cymeradwywyd unrhyw welliannau;
- os nad oes unrhyw welliannau wedi’u cyflwyno a’u dethol, bydd y Llywydd yn galw ar yr Aelodau i siarad ar y cynnig sydd o dan sylw;
- os bydd y cynnig wedi’i wneud gan Ysgrifennydd Cynulliad, bydd y Llywydd yn galw’n gyntaf am ymateb gan gynrychiolydd un o’r pleidiau lleiafrifol; wrth wneud hynny bydd y Llywydd yn cymryd i ystyriaeth unrhyw gytundebau yn ymwneud â’r amser a neilltuwyd i gynrychiolwyr y pleidiau lleiafrifol;
- ychydig cyn yr amser a bennwyd ar gyfer rhoi terfyn ar y ddadl, ac yn ddarostyngedig i unrhyw gynigion trefniadol, bydd y Llywydd yn galw ar y cynigydd i ymateb i’r ddadl, gan ddilyn un ai Ysgrifennydd y Cynulliad neu gynrychiolydd o blaid sy’n gwrthwynebu’r cynnig, fel y bo’n briodol.

16. Ni chaiff aelodau siarad ar ôl i’r sawl sy’n gwneud y cynnig arfer ei hawl i ateb, ac eithrio i geisio eglurhad ar fater penodol cyn i’r sawl sy’n cynnig orffen ei araith (Rheol Sefydlog 7.6). Ni chaiff Aelod siarad ar ôl i bleidlais gael ei chynnal ar gynnig, ac eithrio ar bwynt o drefn yngln â’r cynnig hwnnw (Rheol Sefydlog 7.7)

**YMDDYGIAD SY’N GROES I’R DREFN**

17. Y Llywydd fydd yn cadw trefn yn y Cynulliad, ac yn galw i drefn unrhyw Aelod o’r Cynulliad:

(i) sy'n ymddwyn mewn ffordd a all fod yn dramgwydd troseddol;

(ii) sy'n rhwystro busnes y Cynulliad;

(iii) sy'n ceisio codi mater sydd y tu hwnt i gwmpas y ddadl neu'r cynnig;

(iv) sy'n ymddwyn yn anghwrtais neu’n amhriodol;

(v) sy'n defnyddio iaith sy’n afreolus, sy’n camwahaniaethu neu’n peri tramgwydd ac a allai

dynnu oddi wrth urddas y Cynulliad;

(vi) sy'n gwrthod cydymffurfio ag unrhyw Reol Sefydlog; neu

(vii) sy'n anwybyddu awdurdod y Cadeirydd (Rheol Sefydlog 7.8).

18. Rhaid i'r Aelodau gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan y Llywydd yngln ag ymddygiad yn y Siambr. Os nad yw Aelod yn cydymffurfio â'r cyfryw gyfarwyddiadau gall y Llywydd fynnu bod yr Aelod yn ymneilltuo o'r trafodion am weddill y dydd. Gall y Llywydd hefyd fynnu bod Aelod yn ymneilltuo o'r trafodion am weddill y dydd os yw o'r farn bod yr ymddygiad yn cyfiawnhau ymneilltuo ar unwaith.

19. Os na fydd yr Aelod yn ymneilltuo o'r trafodion ar gais y Llywydd, bydd Aelod arall yn gwneud cynnig i wahardd yr Aelod hwnnw o drafodion y Cynulliad a chynhelir pleidlais ar unwaith. Os ceir cytundeb ar y cynnig rhaid i'r Aelod adael y Siambr ar unwaith. Y tro cyntaf, fe'i gwaherddir am un diwrnod gwaith yn union ar ôl diwrnod y gwaharddiad; ar yr ail achlysur yn ystod yr un flwyddyn galendr fe'i gwaherddir am bum diwrnod gwaith yn union ar ôl diwrnod y gwaharddiad; ar y trydydd achlysur neu ar unrhyw achlysur wedi hynny yn ystod yr un flwyddyn galendr fe'i gwaherddir am ugain niwrnod gwaith yn union ar ôl diwrnod y gwaharddiad.

20. Yn ystod y cyfnod y bydd Aelod wedi'i wahardd ni fydd ganddo hawl i gael unrhyw gyflog gan y Cynulliad ac ni chaniateir iddo fynychu trafodion y Cynulliad, na'i bwyllgorau a'i is-bwyllgorau (Rheol Sefydlog 7.11).

21. Os bydd anhrefn difrifol yn digwydd yn y Cynulliad gall y Llywydd ohirio'r cyfarfod heb gynnal pleidlais ar unrhyw gynnig, neu gall ohirio'r eisteddiad am gyfnod penodedig (Rheol Sefydlog 7.12).

**YMDDYGIAD Y CYHOEDD**

22. Gall y Llywydd wneud rheolau sy'n pennu'r amodau y mae'n rhaid i aelodau'r cyhoedd gydymffurfio â hwy wrth fynychu cyfarfodydd llawn (Rheol Sefydlog 7.15). Cynigir y rheolau canlynol:

Ni chaiff aelodau'r cyhoedd:

- fynychu'r trafodion os byddant yn feddw neu o dan ddylanwad cyffuriau, neu os yw eu hymddygiad yn debygol o beri tramgwydd i aelodau eraill o'r cyhoedd;
- siarad yn uchel, defnyddio cyfarpar electronig fydd yn achosi ymyrraeth, nac amharu ar drafodion y Cynulliad mewn unrhyw fodd arall;
- dod â bwyd a diod i'r oriel gyhoeddus.

23. Bydd aelodau o’r cyhoedd sydd, ym marn staff y Llywydd, yn torri’r amodau hyn yn cael eu gwahardd o’r trafodion. Yn fwy cyffredinol, gall y Llywydd fynnu bod aelodau’r cyhoedd yn ymneilltuo o’r trafodion os byddant yn ymddwyn yn anystywallt neu’n anhrefnus, neu’n ymyrryd fel arall â’r Cynulliad wrth iddo gyflawni ei fusnes (Rheol Sefydlog 7.16).

Diwygiwyd ym mis Ebrill 2000